Meini prawf cyffredin	Mae'n rhaid i fusnesau sy'n gwneud cais fod yn ardal awdurdod lleol Abertawe. Ni ddylai ymgeiswyr fod mewn ôl-ddyledion Treth y Cyngor a/neu Ardrethi Busnes, ni dderbynnir taliadau yn erbyn pryniannau arian parod, hyd at ddau gais neu £50,000 ar draws yr holl gynlluniau grant uchod			

Shared Prosperity Funding Business Grants

	Pre-start Grantiau Busnes Abertawe Swansea Business Grants  Cyn Dechrau Busnes Business Pre-start	Growth Grantiau Busnes Abertawe Swansea Business Grants  Twf Growth	Innovation Grantiau Busnes Abertawe Swansea Business Grants  Arloesi Innovation	Carbon Reduction Grantiau Busnes Abertawe Swansea Business Grants  Lleihau Carbon Carbon Reduction
Scope	Supporting creation of new business and new entrepreneurs	New product/service which will create/safeguard jobs	Develop innovative product and process solutions to enhance growth and competitiveness.	Measures to reduce energy consumption and associated costs
Eligible expenditure	Equipment, training, accreditation, marketing, stock	Machinery, equipment, IT systems, telecoms, furniture and office equipment	Prototyping, patent costs, R&D, testing, proof of concept	Energy generation, energy conservation, energy efficient installations, energy audits, planning costs
Minimum Grant	£500	£1,000	£500	£1,000
Maximum Grant	£10,000	£50,000 £5k per job created/safeguarded	£10,000	£10,000; £25,000 in certain circumstances
Match Funding Requirement	First £1,000 (95%) £1k - £10k (50%)	50%	50%	50%
Business Age	Pre-starts only	Minimum 6 months		n/a
Supporting Documents	Business Plan & 12 month cash flow forecast			
Quotations Required	2 quotes below £25k 3 quotes above £25k 2 evidenced quotes (website link, screen grab, supplier quote) for each item/service			
Ineligible expenditure	Costs already incurred; VAT; staff salaries; premises rental; loans; general running costs, vehicles, buildings costs			
Timescales	4 weeks to complete claim once awarded			4 months to complete claim once awarded
Application contact	StartupGrant@swansea.gov.uk	growthgrant@swansea.gov.uk		
Common criteria	All applicant businesses must be based in Swansea local authority area. Applicants must not be in arrears on Council Tax and/or Business Rates, payments against cash purchases cannot be accepted, up to two applications or £50k across all above grant schemes			



Cymorth Caffael

Mae ystod lawn o gymorth ar gael gan Gyngor Abertawe i helpu'ch busnes i dendro ar gyfer contractau Cyngor Abertawe. Mae hyn yn cynnwys Gweithdai Ysgrifennu Tendrau a chyngor ac arweiniad 1 i 1.

Y cam cyntaf yw cofrestru gyda GwerthwchiGymru ac eDendroCymru er mwyn gweld y cyfleoedd contract presennol ac ymateb i'r cyfleoedd a gyhoeddir gan y cyngor.

AWGRYM

Er mwyn derbyn hysbysiadau am gcontractau sydd ar y gweill, rhaid nodi'r codau Geirfa Gaffael Gyffredin cywir ar GwerthwchiGymru wrth cofrestru.



Am ragor o wybodaeth am:-

- Ddod yn gyflenwr
- Tendo ar gyfer contractau'r cyngor
- Caffael a chontractau
- Tendo fel consortiwm

Ewch i <https://www.abertawe.gov.uk/gwneudbusnesgydarcyngor>

Mae canllaw i gyflenwyr ar gael i'ch helpu drwy'r broses ac mae ar gael drwy ein gwefan.

https://issuu.com/swansea/docs/46870-20_supplier_guide/3

Os oes angen cefnogaeth ar eich busnes gydag unrhyw un o'r prosesau uchod, mae gan Gyngor Abertawe swyddog cefnogi penodol sydd wrth law i gynorthwyo gyda chofrestru ar gyfer GwerthwchiGymru ac eDendroCymru. Gallwn hefyd helpu gyda nodi'r codau Geirfa Gaffael Gyffredin cywir i sicrhau bod hysbysiadau am gcontractau yn cael eu derbyn. Ar ben hynny, gall busnesau hefyd gael cymorth a chefnogaeth am ddim gan Fusnes Cymru, (a ariennir gan Lywodraeth Cymru).

E-bostiwrch: Alyson.Davies@abertawe.gov.uk



**Funded by
UK Government**

Procurement Support

A full range of support is available from Swansea Council to help your business tender for Swansea Council contracts. This includes both Tender-Writing Workshops and 1-2-1 advice and guidance.

The first step is to register with Sell2Wales and eTenderWales in order to view current contract opportunities and to respond to the opportunities published by the Council.

TIP

In order to receive notifications of upcoming contracts, the correct Common Procurement Vocabulary (CPV) codes must be entered in to Sell2Wales at registration.



For more information on:-

- Becoming a supplier
- Tendering for Council contracts
- Procurements and contracts
- Tendering as a consortium

Please visit <https://www.swansea.gov.uk/dobusinesswithcouncil>

A supplier guide is available to help you through the process and is available via our website.

https://issuu.com/swansea/docs/46870-20_supplier_guide/3

If your business needs support with any of the processes above, Swansea Council has a dedicated support officer who is on hand to assist with the registration of Sell2Wales and eTenderWales, we can also help with entering the correct CPV codes to ensure contract notifications are received. Furthermore, businesses can also access free help and support from Business Wales, (funded by the Welsh Government).

Contact: Alyson.davies@swansea.gov.uk



**Funded by
UK Government**



Arloesedd a Thechnoleg

Mae Abertawe'n gartref i ddwy brifysgol arobryn ac un o golegau addysg bellach mwyaf blaenllaw Cymru. Mae gan bob un ohonynt gysylltiadau cryf â byd diwydiant a gallant helpu eich busnes i arloesi a thyfu.

Rhestrwyd Prifysgol Abertawe yn y 25ain safle yn y DU ac ar y brig yng Nghymru gan *The Guardian University Guide* 2024. Fe'i henwyd hefyd fel y brifysgol orau yng Nghymru gan arolwg *The Times* a *The Sunday Times* ar gyfer 2024. Mae Prifysgol Abertawe'n gaffaeliad anferth i'r ddinas. Mae'n arwain y ffordd yn fyd-eang o ran ymchwil ac yn meddu ar hanes cryf o gydweithredu â busnes i gael effaith go iawn. Mae ganddi fwy nag 20,000 o fyfyrwr ac mae ei Ffowndri Gyfrifiadol yn ysgogi ymchwil i'r gwyddorau cyfrifiadol a mathemategol, gan wneud Abertawe'n gyrchfan byd-eang i wyddonwyr cyfrifiadol a phartneriaid diwydiannol. Ar Gampws Parc Singleton, mae'r Sefydliad Gwyddor Bywyd yn cynnal gwaith ymchwil a datblygu rhyngddisgyblaethol ochr yn ochr â chyfleusterau ymchwil glinigol ac unedau deori busnesau o'r radd flaenaf.

Mae Prifysgol Abertawe ar y brig yng Nghymru am greu cwmnïau deillio, ac mae yn y 9fed safle yn y DU.

Mae gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) gampysau ledled de a gorllewin Cymru, gan ganolbwyntio ar gyrsiau sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer gyrfaedd.

Yn ddiweddar, agorodd y Matrics Arloesi ar Gampws y Glannau SA1, gan atgyfnerthu arloesedd digidol a chyfnewid gwybodaeth mewn modd cydweithredol.

Mae'r Matrics Arloesi'n cyd-fynd â chanolfannau arbenigol sy'n canolbwyntio ar werthuso profiad defnyddwyr, trawsnewid digidol, gwybodeg, dylunio a datblygu cynhyrchion, gweithgynhyrchu uwch a dylunio peirianeg. Mae'r hybiau hyn yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth, datblygu syniadau a chydweithrediadau allanol ar draws amrywiaeth eang o sectorau.

Un o ffocysau craidd y Matrics Arloesi yw trawsnewid digidol, gan helpu diwydiannau i fabwysiadu technolegau fel awtomeiddio, deallusrwydd artifisial, dadansoddi data mawr, a thechnolegau ymdrochol. Mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn helpu myfyrwyr a staff i fagu sgiliau hanfodol i fyd diwydiant drwy hyfforddiant, interniaethau a phrosiectau cydweithredol. Mae'r cyfleusterau yn y Matrics Arloesi'n cynnwys man swyddfa dynodedig, desgiau poeth, ardaloedd deori a mannau cynadledda modern.

Mae PCYDDS yn cynnal cysylltiadau cryf â chyflogwyr rhanbarthol, gan gyflwyno rhaglenni sgiliau penodol ym meysydd adeiladu, gweithgynhyrchu uwch a phrentisiaethau gradd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan wella cyflogadwyedd graddedigion.

Cydnabyddir yn genedlaethol fod PCYDDS yn gyfartal yn y trydydd safle yn y DU am foddhad myfyrwyr (*Times Higher Education*, 2024).

Gall PCYDDS ddarparu mynediad at gyfleusterau a chyfarpar pwrpasol o'r radd flaenaf, a hyfforddiant a chefnogaeth dechnegol ar y safle i helpu busnesau i ddatrys problemau a datblygu a phrofi cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

Gall hyn helpu busnesau i gael mantais gystadleuol a gwella eu gallu i arloesi.

Ceir rhagor o wybodaeth drwy e-bostio inspire@uwtsd.ac.uk

Mae'r Ganolfan Diwydiannau Creadigol, Ymchwil ac Arloesedd, dan arweiniad PCYDDS, yn cynnig hwb ar gyfer ymchwil, dysgu a datblygu eiddo deallusol, gan weithio gyda mwy na 500 o fusnesau yn y sector.

Mae Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru PCYDDS yn cynnig cyfleusterau a hyfforddiant o'r radd flaenaf i unigolion a chwmnïau adeiladu.

Mae'r prifysgolion yn sbarduno twf busnesau drwy gynnal mynediad uniongyrchol at arbenigedd ymchwil o'r radd flaenaf, technoleg a chyfleusterau arloesol – mae'r Ffowndri Gyfrifiadol yn enghraifft, ynghyd â phrosiect y BioHYB Cynhyrchion Naturiol sy'n cynnig llwybr carlam i fasnacheiddio cynhyrchion sy'n seiliedig ar natur a fydd yn cyflymu'r economi werdd yn Abertawe, gan greu busnesau newydd a chwmnïau deillio.

Gall y ddwy brifysgol ddarparu mynediad at gyfleusterau a chyfarpar pwrpasol o'r radd flaenaf, a hyfforddiant a chefnogaeth dechnegol ar y safle i helpu busnesau i ddatrys problemau a datblygu a phrofi cynhyrchion a gwasanaethau newydd. Gall hyn helpu busnesau i gael mantais gystadleuol a gwella eu gallu i arloesi.

Yn ogystal, mae Abertawe'n gartref i Goleg Gŵyr Abertawe, coleg addysg bellach mawr a chanddo fwy na 15,000 o ddysgwyr, gan weithredu o saith lleoliad ledled Abertawe. Mae'r coleg yn cynnig llwybrau galwedigaethol ac academiaidd at amrywiaeth eang o ddibenion addysgol, ac mae atebion pwrpasol ar gael i fusnesau.

Gallwch gael gafael ar arbenigedd addysg bellach ac addysg uwch i gefnogi eich busnes drwy ffonio:

Prifysgol Abertawe 01792 606060

PCYDDS 01792 481163

Coleg Gŵyr Abertawe 01792 284000

**Cyflymder gallu
mewn gigadidau:
90.63%**



**Band eang cyflym iawn:
ar gael i 99.3%
o breswylwyr a
busnesau yn Abertawe**



Innovation and Technology

Swansea is home to two award-winning universities and one of Wales' leading Further Education colleges. All have strong links with industry and can help your business innovate and grow.

Swansea University is ranked 25th in the UK and is the top university in Wales according to *The Guardian* University Guide 2024. It has also been named as the top Welsh University by *The Times* and *Sunday Times* in its 2024 survey. With a global reputation for research and a strong track record for collaborating with businesses to make tangible impacts, Swansea University is a huge asset to the city. Its student numbers top 20,000 and its Computational Foundry drives research into computational and mathematical sciences, making Swansea a global destination for computational scientists and industrial partners. At its Singleton campus, the Institute of Life Science co-locates interdisciplinary R&D with state-of-the-art clinical research facilities and business incubation units.

Swansea University holds the top position in Wales for generating spinout companies, and 9th in the UK.

University of Wales Trinity Saint David (UWTSD) is a university with campuses across South and West Wales focusing on career-ready courses.

The university recently opened the Innovation Matrix (IM) at its SA1 Waterfront Campus, enhancing digital innovation and collaborative knowledge exchange.

IM complements specialised centres focused on user experience evaluation, digital transformation, informatics, product design and development, advanced manufacturing, and engineering design. These hubs facilitate knowledge exchange, idea development, and external collaborations across a wide range of sectors.

A core focus of the IM is supporting digital transformation, helping industries adopt technologies such as automation, AI, big data analytics, and immersive technologies. These activities also help to equip students and staff with essential industry skills through training, internships, and collaborative projects with industry. Facilities within the IM include dedicated office space, hot-desking, incubation areas, and modern conferencing spaces.

UWTSD maintains strong links with regional employers, delivering targeted skills programmes in construction, advanced manufacturing, and Welsh Government-funded degree apprenticeships, enhancing graduate employability.

Nationally recognised, UWTSD is Joint 3rd in the UK for student satisfaction (*Times Higher Education*, 2024).

UWTSD can provide access to purpose-built, state-of-the-art facilities, equipment and on-site training and technical support to help businesses to problem-solve and develop and test new products and services. This can help businesses to gain a competitive edge and enhance their innovation capabilities.

To find out more please contact inspire@uwtsd.ac.uk

The Creative Industries Research and Innovation Centre (CIRIC) led by UWTSD, provides a hub for research, learning and Intellectual Property development working with 500+ businesses in the sector.

UWTSD's Construction Wales Innovation Centre (CWIC) offers state-of-the-art facilities and world-class training for individuals and construction companies.

The universities act as catalysts for business growth by providing direct access to world-class research expertise, cutting-edge technology and state of the art facilities – the Computational Foundry at the Bay Campus is an example, along with the Natural Products BioHUB project that fast tracks the commercialisation of nature-based products that will accelerate the Green Economy in Swansea, creating start-up and spin-out businesses.

Both universities can provide access to purpose-built, state-of-the-art facilities, equipment and on-site training and technical support to help businesses to problem-solve and develop and test new products and services. This can help businesses to gain a competitive edge and enhance their innovation capabilities.

In addition, Swansea is home to Gower College Swansea, a large further education college with over 15,000 learners that operates from seven locations across Swansea. The College provides both vocational and academic pathways for a wide variety of educational possibilities, with bespoke solutions available to businesses.

To access further and high education expertise to support your business, contact:

Swansea University 01792 606060

UWTSD 01792 481163

Gower College Swansea 01792 284000

**gigabit capable
speeds:**

90.63%



Superfast broadband:



**available to 99.3%
of Swansea residents
and businesses**

PRIFYSGOL ABERTAWE



Prifysgol Abertawe
Swansea University

CYDWEITHIO I SICRHAU TWF

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe ar egwyddorion arloesedd a chydweithredu a gall weithio gyda'ch sefydliad er mwyn deall eich heriau a datblygu atebion creadigol.

MANTEISIO AR EIN HARBENIGEDD YM MAES YMCHWIL A DATBLYGU

Gallwn weithio gyda'ch sefydliad i'ch helpu i arloesi a thyfu, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu ar y cyd, yn ogystal â chynnig mynediad at ein harbenigedd ymchwil, lle i gydleoli, technolegau a chyfleusterau a chyfarpar o'r radd flaenaf.

DATBLYGU EICH GWEITHLU

Rydym yn cynnig ystod o gyrsiau ar gyfer swyddogion proffesiynol ym maes busnes a diwydiant sy'n gallu astudio tra eu bod mewn cyflogaeth amser llawn. Byddwn yn gweithio gyda'ch cwmni i adnabod eich anghenion unigol ac yn llunio'r pecyn hyfforddiant cywir i'ch galluogi i gyflawni eich nodau dysgu a datblygu.

RECRIWTIO EIN MYFYRWYR A'N GRADDEDIGION

Rydym yn ymrwymedig i greu graddedigion hyderus, addasadwy a hynod gyflogadwy, felly os ydych chi'n chwilio am rywun ar gyfer lleoliad gwaith, swydd ran-amser neu gyfle i recriwtio graddedig, gallwn eich helpu i ddod o hyd i'r person perffaith o'n banc dawn sy'n cynnwys dros 20,000 o fyfyrwyr.

DEFNYDDIO EIN GWASANAETHAU MASNACHOL A DIGWYDDIADAU

Os ydych chi'n dymuno cynnal cyfarfod, digwyddiad neu gynhadledd, rydym ni'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau digwyddiad, arlwyio ar y safle a mannau cwrdd hyblyg ar Gampws y Bae a Champws Singleton.

Gallwn eich helpu i ddatblygu cyfleoedd masnachol sy'n canolbwyntio ar reoli cyfleusterau, chwaraeon, adwerthu, arlwyio, digwyddiadau a mwy. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'ch busnes ar sail ymgynghori neu bartneriaeth.

I ddysgu mwy am sut y gallwn ni helpu eich
sefydliad cysylltwch â ni:
business.enquiries@abertawe.ac.uk

YMAELOWD WCH Â LINC: PRIFYSGOL ABERTAWE

Mae LINC Abertawe yn rhwydwaith cydweithredol y gallwch chi ymuno ag ef am ddim sy'n galluogi sefydliadau preifat, cyhoeddus a thrydydd sector i gysylltu â'i gilydd a chael mynediad at adnoddau, arbenigedd a rhwydweithiau cefnogi sydd ar gael ym Mhrifysgol Abertawe er mwyn cefnogi twf sefydliadol.

COFRESTRWCH AM DDIM YN WWW.ABERTAWE.AC.UK/BUSNES/LINC-ABERTAWE

SWANSEA UNIVERSITY

WORKING TOGETHER FOR GROWTH



To find out how we can help your
organisation contact us:
business.enquiries@swansea.ac.uk

Swansea University was founded on the principles of innovation and collaboration and can work with your organisation to understand your challenges and develop creative solutions.

ACCESS OUR RESEARCH AND DEVELOPMENT EXPERTISE

We can work with your organisation to help you innovate and grow, providing opportunities for collaborative research & development as well as offering access to our research expertise, co-location space, technologies and state-of-the-art facilities and equipment.

DEVELOP YOUR WORKFORCE

We offer a range of courses that enable business and industry professionals to study whilst in employment. We will work with your company to help identify your individual needs and create the right training package to enable you to achieve your learning and development goals.

RECRUIT OUR STUDENTS AND GRADUATES

We are committed to producing confident, adaptable and highly-employable graduates so if you are looking for someone to fill a work placement, part-time role or graduate recruitment opportunity, we can help you find the perfect match from our talent bank of over 20,000 students.

UTILISE OUR COMMERCIAL AND EVENTS SERVICES

If you are looking to host a meeting, event or conference, we offer a range of event facilities, on-site catering and flexible meeting spaces at the Bay Campus and Singleton Park Campus.

We can also help you develop commercial opportunities focusing on facilities management, sports, retail, catering, events and more and would welcome the opportunity to work with your organisation on a consultancy or partnership basis.

BECOME A SWANSEA UNIVERSITY: LINC MEMBER TODAY

Swansea LINC is a free to join collaborative network that enables private, public and third sector organisations to connect with each other and access resources, expertise and support networks available within Swansea University to support organisational growth.

SIGN UP FOR FREE AT WWW.SWANSEA.AC.UK/LINC



Hyfforddiant arbenigol wedi'i deilwra i ddiwallu eich anghenion busnes

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn goleg arobryn sy'n cynnig amrywiaeth eang o raglenni hyfforddiant sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau gweithwyr mewn busnesau ledled y rhanbarth.

Mae portffolio'r Coleg o raglenni hyfforddiant – y mae llawer ohonynt wedi'u hariannu'n llawn – yn bwriadu meithrin twf a doniau mewn busnes.

Mae gennym dîm hynod fedrus o aseswyr, hyfforddwyr a darlithwyr mewn lleoliadau ar draws Abertawe a Chymru gyda phrofiad helaeth o ddiwydiant. Mae hyn yn rhoi tawelwch meddwl i chi fod

hyfforddiant a dysgu yn cael eu darparu gan arbenigwyr sy'n deall anghenion a gofynion unigryw y sector. Rydyn ni hefyd yn gweithio gydag arweinwyr diwydiant i greu atebion hyfforddiant a diwydiant. Mae hyn yn cynnwys - ond ddim yn gyfyngedig i - brentisiaethau sy'n llywio'r agenda sgiliau ar gyfer y rhanbarth a thu hwnt.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ddarparwr prentisiaethau arobryn. Yn 2024 fe enillodd y Coleg wobwr AoC ar gyfer Ehangu Cyfranogiad yn Noson Wobrwyo Beacon Cymdeithas y Colegau 2023/2024, yn dilyn llwyddiant yng nghategori Ryngwladoldeb yng Ngwobrau y

Cyngor Prydeinig yn 2022/2023.

Fe wnaeth y Coleg ennill gwobr ar gyfer Effaith Gymdeithasol yng Ngwobrau InsideOut 2024, Darparwr Prentisiaeth Gwasanaethau Gofal y Flwyddyn yn ystod Wythnos AB a Gwobrau Prentisiaeth AAC AELP 2022, yn ogystal â chyrraedd y rhestr fer ar gyfer categori Darparwr Prentisiaeth y Flwyddyn yn ddiweddar yng Ngwobrau Hyfforddiant Prydain 2024. Fe wnaethom hefyd gyrraedd rhestr fer y categori Ysgol/ Coleg y Flwyddyn yng Ngwobrau Symudedd Cymdeithasol y DU 2024.

Mae ein meysydd cwrs yn cynnwys:

- Addysgu ac asesu
- Amgylchedd adeiledig
- Arweinyddiaeth a rheolaeth: Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI) ac ILM
- Cerbydau trydan a hybrid
- Cyfarwyddyd a datblygiad gyrfaol
- Cyfrifeg (AAT ac ACCA)
- Cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes
- Cyngor a chyfarwyddyd
- Dadansoddeg data
- Diwydiannau creadigol
- Eiriolaeth annibynnol
- Ffasiwn a thecstilau
- Gwasanaethau cyfreithiol
- Gwasanaethau cwsmeriaid
- Gweinyddu busnes
- Gweithrediadau canolfan gyswllt
- Iechyd a diogelwch (NEBOSH, IOSH)
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Marchnata digidol
- Peirianeg a gweithgynhyrchu
- Rheoli prosiect
- Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (CIWM)
- Sefydliad Rheoli Cyfleusterau Gweithle (IWFM)
- Sgiliau digidol ar gyfer busnes
- Technegau gwella busnes
- Technegwyr labordy
- Trin gwallt, harddwch a thriniaethau cyfannol
- Warysau, storio a logisteg
- Y Sefydliad Tai Siartredig (CIH)
- Ynni gwyrdd
- A llawer mwy.



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

gcs.ac.uk



Expert training tailored to meet your business needs

Gower College Swansea is an award-winning college which offers a diverse range of training programmes that aim to develop the skills of employees in businesses across the region.

The College's portfolio of training programmes – many of which are fully funded – are designed to foster growth and talent within a business.

We have a highly skilled team of assessors, trainers and lecturers based at locations throughout Swansea and Wales with extensive industry experience. This offers the peace of mind that training

and learning is being delivered by an expert who understands the needs and unique requirements of a sector. We also work with industry leaders to create training and development solutions. This includes - but not limited to - apprenticeships that drive the skills agenda for the region and beyond.

Gower College Swansea is an award-winning apprenticeship provider. In 2024 it was crowned the winner of the AoC Widening Participation award at the Association of Colleges Beacon Awards 2023/24, having previously won the British Council Award for Internationalism in 2022/2023.

The College was also awarded the Social Impact award at the InsideOut Awards 2024 and Care Services Apprenticeship Provider of the Year at the FE Week and AELP AAC Apprenticeship Awards 2022, as well as recently being a finalist in the Apprenticeship Provider of the Year category at the British Training Awards 2024 and shortlisted in the School/College of the Year category at the UK Social Mobility Awards 2024.

Our areas include:

- Accountancy (AAT and ACCA)
- Advice and guidance
- Built environment
- Business administration
- Business improvement techniques
- Career guidance and development
- Chartered Institute of Housing (CIH)
- Chartered Institute of Waste Managements (CIWM)
- Contact centre operations
- Creative industries
- Customer services
- Data analytics
- Digital marketing
- Digital skills for business
- Electric and hybrid vehicle
- Engineering and manufacturing
- Fashion and textiles
- Green energy
- Hair, beauty and holistic therapies
- Health and safety (NEBOSH and IOSH)
- Health and social care
- Independent advocacy
- Institute of Workplace Facilities management (IWFM)
- Lab technicians
- Leadership and management: Chartered Management Institute (CMI) and ILM
- Legal services
- Project management
- Social media for business
- Teaching and assessing
- Warehousing, storage and logistics
- And many more.

If you would like to explore what's on offer through Gower College Swansea, contact the team directly on training@gcs.ac.uk or call 01792 284400.

SUT GALL PRIFYSGOL ABERTAWE GEFNOGI TWF EICH BUSNES?



Mae prifysgolion yn llawn myfyrwyr a graddedigion talentog, arbenigwyr ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, cyfleusterau arloesol, offer a gofod deori. Mae'r adnoddau hyn i gyd ar gael i fusnesau lleol sy'n awyddus i gydweithio i ysgogi arloesedd, datrys heriau'r diwydiant a chyfrannu at ddatblygiad economaidd rhanbarthol.

Gydag amser ac adnoddau o dan fwy o bwysau nag erioed, mae dechrau trafodaethau ynghylch gweithgarwch ymchwil cydweithredol yn aml yn frawychus i bob parti. Er mwyn helpu i ddatgloi adnoddau ac arbenigedd i hwyluso'r gweithgarwch hwn, mae cynghorau ymchwil, y llywodraeth ac awdurdodau lleol wrthi'n cynnal ystod eang o raglenni ariannu dan arweiniad byd diwydiant.



Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth rhwng Prifysgol Abertawe a KLA Corporation

Efallai mai'r mwyaf adnabyddus o'r rhain yw'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth, cydweithrediad tair ffordd rhwng busnes, cydymaith ymchwil ac academydd. Drwy gynnwys cydymaith ymchwil yn eich busnes am gyfnod o 12 i 24 mis, gallwch gydweithio ar brosiect wedi'i ategu gan arbenigedd academaidd i adeiladu gwell cynhyrchion a gwasanaethau a chreu ffrydiau incwm mwy cadarn.

Gall fod sawl ffordd o gydweithio â Phrifysgol, o weithio'n uniongyrchol gyda'n gilydd ar brosiectau ymchwil a ariennir gan y diwydiant drwy grant hyd at gyflogi ymgynghorwyr ymchwil, llogi cyfleusterau ac offer, trwyddedu eiddo deallusol a chydleoli eich swyddfeydd mewn adeiladau prifysgol.

Yn Mhrifysgol Abertawe, rydym wedi gweithio gyda miloedd o sefydliadau'r sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol o bob math a maint i ysgogi twf economaidd, meithrin ffyniant, cyfoethogi'r gymuned leol a diwylliant Cymru a chyfrannu at iechyd a lles ein dinasyddion.

Yn rownd ddiweddaraf yr arolwg Busnes a Rhyngweithio Cymunedol Addysg Uwch, roedd Prifysgol Abertawe ar y brig yng Nghymru, ac yn seithfed yn y DU, ar gyfer Cydweithio â Diwydiant. Gyda nifer enfawr o brosiectau ymchwil cydweithredol yn cael eu cynnal ar unrhyw un adeg ar draws ystod eang o ddisgyblaethau, mae gan fusnesau lleol ledled Abertawe gyfle i fanteisio ar arbenigedd ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau; o'r gwyddorau meddygol, iechyd a bywyd i wyddoniaeth, peirianeg, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.

Yn ogystal â gweithio gyda Phrifysgol Abertawe ar brosiectau unigol, mae cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn barhaus i fusnesau gymryd rhan mewn mentrau cydweithredol rhanbarthol mwy sy'n cael eu hategu gan raglenni fel y Gronfa Ffyniant a Rennir a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.

Mae'r Brifysgol yn arwain y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Arloesi mewn Chwaraeon ac Iechyd (NNIISH) a lansiwyd yn ddiweddar, â chymorth gan Fargaen Ddinesig Bae Abertawe. Dyma un enghraifft o raglen gydweithredol. Mae NNIISH yn paratoi'r ffordd ar gyfer oes newydd o gydweithio ac arloesi, yma yn Abertawe.

Mae'r rhwydwaith newydd yn gweithio gyda'r gymuned fusnes leol i drawsnewid tirwedd technoleg iechyd a chwaraeon yng Nghymru, gan gyflymu twf technoleg chwaraeon, technoleg feddygol ac arloesedd gofal iechyd yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe drwy ddod ag arbenigedd lleol, cenedlaethol ac amlwladol at ei gilydd.

Gyda'r chwaraewr rygbi rhyngwladol a chyn-fyfyriwr y gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe, Alun Wyn Jones, yn dechrau yn ei swydd fel Ymgynghorydd Strategol, mae'r rhwydwaith yn cychwyn yn dda ac yn mynd ati i geisio cydweithio â busnesau lleol.



Mae arwr Cymru a'r Llewod, Alun Wyn Jones, yn ymuno â Phrifysgol Abertawe fel Cynghorydd Strategol

I ddarganfod sut y gallech gydweithio â'ch Prifysgol leol a manteisio ar yr adnoddau ar stepen eich drws, e-bostiwch y fîm ymchwil a Mentergarwch yn business.enquiries@abertawe.ac.uk

HOW CAN SWANSEA UNIVERSITY SUPPORT YOUR BUSINESS GROWTH?



Universities are packed with talented students and graduates, world-leading research experts, cutting-edge facilities, equipment and incubation space. These resources are all available to local businesses that are looking to collaborate in driving innovation, solving industry challenges and contributing to regional economic development.

With time and resources ever stretched, entering discussions around collaborative research activity is often daunting for all parties. To help unlock resource and expertise to facilitate this activity, research councils, government and local authorities are currently running a wide range of industry-led funding programmes.



A Swansea University and KLA Corporation Knowledge Transfer Partnership

Perhaps the best known of these is the Knowledge Transfer Partnership, a three-way collaboration between a business, a research associate and an academic. By embedding a research associate within your business for a period of 12-24 months, you can collaborate on a project underpinned by academic expertise to build better products & services and create more robust income streams.

Collaboration with a University can take many forms, from directly working together on grant funded industry-led research projects through to employing research consultants, hiring facilities and equipment, licensing intellectual property and co-locating your offices within university premises.

At Swansea University we have worked with thousands of private, public and voluntary sector organisations of all shapes and sizes to drive economic growth, foster prosperity, enrich the local community and Welsh culture and contribute to the health and wellbeing of our citizens.

In the latest round of the Higher Education Business and Community Interaction survey, Swansea University was ranked 1st in Wales, and 7th in the UK, for Collaboration with Industry. With a huge number of collaborative research projects taking place at any one time across a wide range of disciplines, local businesses across Swansea have an opportunity to tap into expertise across a wide range of disciplines; from medical, health and life sciences through to science, engineering, humanities and social sciences.

In addition to working with Swansea University on individual projects, there are continually emerging opportunities for businesses to participate on larger regional collaborative initiatives that are underpinned by programmes such as the Shared Prosperity Fund and the Swansea Bay City Deal.

Led by the University and supported by the Swansea Bay City Deal and local health boards, the recently launched National Network for Innovation In Sport and Health (NNIISH) is one example of a collaborative programme. NNIISH is paving the way for a new era of collaboration and innovation, right here in Swansea.

The new network works with the local business community to transform the landscape of health and sport technology in Wales, accelerating the growth of sport tech, med tech and healthcare innovation in the Swansea Bay City Region by bringing together local, national and multinational expertise.

With international rugby player and Swansea University law graduate Alun Wyn Jones taking up the position of Strategic Advisor, the network is off to a flying start and is actively seeking collaborations with local businesses.



Wales and Lions legend Alun Wyn Jones joins Swansea University as Strategic Advisor

To find out how you could collaborate with your local University and tap into the resources on your doorstep, please contact the Research & Enterprise team on business.enquiries@swansea.ac.uk

Sgiliau a Recriwtio

Mae Cyngor Abertawe a Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i gefnogi pobl i feithrin sgiliau a magu hyder i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith. Mae hefyd yr un mor bwysig i gefnogi cyflogwyr i ddod o hyd i'r gweithlu y mae ei angen arnynt er mwyn i'w busnesau ffynnu.

Datblygwyd Cynllun Rhanbarthol Cyflogaeth a Sgiliau De-orllewin a Chanolbarth Cymru i lywio dull strategol Llywodraeth Cymru o ddarparu cyflogaeth a sgiliau.

<http://online.flipbuilder.com/itet/vgfo/mobile/index.html>

Mae'r adran Sgiliau a Recriwtio hon yn rhoi trosolwg o'r ystod eang o sgiliau a chymorth recriwtio sydd ar gael i fusnesau Abertawe. Mae'r rhaglenni a'r prosiectau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi twf busnesau a gwireddu potensial gweithlu'r sir.

Mynediad i Waith

Mae Llywodraeth y DU yn rhoi grantiau i bobl anabl neu unigolion sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol tymor hir i ddechrau gweithio, aros mewn gwaith neu symud i hunangyflogaeth.

Gall Mynediad i Waith helpu i dalu am gymorth y gall fod ei angen ar unigolion oherwydd eu hanabledd neu gyflwr iechyd tymor hir, er enghraifft:

- offer arbenigol a meddalwedd gynorthwyl
- gweithwyr cefnogi, fel cyfieithwyr laith Arwyddion Prydain, anogwr gwaith neu ffrind i deithio â nhw
- costau teithio i'r gwaith, os na allwch ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- addasiadau i'ch cerbyd fel eich bod yn gallu cyrraedd eich gwaith
- newidiadau ffisegol i'ch gweithle

Gall eich gweithle gynnwys eich cartref os ydych yn gweithio yno rywfaent neu'r cyfan o'r amser

www.gov.uk/access-to-work

Y Tu Hwnt i Frics a Morter

Mae menter Y Tu Hwnt i Frics a Morter Cyngor Abertawe yn gweithio gyda chontractwyr lleol i greu lleoliadau gwaith a hyfforddiant i bobl lleol.

Mae'r fenter yn sicrhau cyflogaeth, prentisiaethau, hyfforddiant a chyflleoedd i fagu sgiliau ar gyfer pobl ddi-waith, pobl anweithgar yn economaidd a phobl ifanc, drwy gynnwys cymalau buddion cymdeithasol yng nghontractau'r cyngor. Mae 25,000 o wythnosau o hyfforddiant a phrofiad mewn swydd wedi'u creu dros y 5 mlynedd diwethaf.

www.abertawe.gov.uk/ytuhwntifricsamorter

Gwasanaeth Recriwtio a Hyfforddi Busnes Cymru

Mae sgiliau a chyflogadwyedd yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, sy'n deall bod gwella sgiliau pobl yn gwella eu gobeithion o gael cyflogaeth deg, ddiogel a boddhaus. Bydd atgyfnerthu'r sylfaen sgiliau yng Nghymru cymaint â phosib yn cynyddu'r posibilrwydd o ddenu busnesau newydd a datblygu'r rhai hynny sydd eisoes yn bodoli er budd pawb.

Mae gwasanaeth Recriwtio a Hyfforddi Busnes Cymru'n rhoi cymorth ac arweiniad i nodi bylchau o ran sgiliau a datblygiad ar gyfer eich busnes, ac i sicrhau bod gan weithlu Cymru sgiliau addas ar gyfer y dyfodol.

<https://busnescymru.llyw.cymru/pynciau-a-chyfarwyddyd/cyflogi-pobl-a-gwella-sgiliau/recriwtio-a-hyfforddi>

Coleg Gŵyr Abertawe

Mae Coleg Gŵyr Abertawe'n cynnig amrywiaeth o brentisiaethau a chymwysterau datblygiad proffesiynol i fusnesau er mwyn uwchsgilio staff. Mae gan y coleg fynediad at gyllid amrywiol a gall helpu cyflogwyr i lenwi bylchau o ran sgiliau, diogelu eu gweithlu ar gyfer y dyfodol a chadw gweithwyr talentog.

Mae rhaglenni prentisiaethau arobryn yn cynnig cyfle i unigolion o bob oedran ddatblygu eu gyrfa, drwy fagu profiad allweddol yn y gweithle a sgiliau ymarferol, gan hefyd alluogi busnesau i leihau costau recriwtio.

Mae gan Goleg Gŵyr Abertawe gontract â Llywodraeth Cymru i ddarparu'r hyfforddiant a'r asesiadau, a ariennir yn llawn, ac mae busnesau'n talu cyflog y prentis.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r coleg wedi derbyn Gwobr yr AoC (Cymdeithas y Colegau) am Ehangu Cyfranogiad, Gwobr Effaith Gymdeithasol gan InsideOut, yn ogystal â chymradwyaeth uchel a gwobr aur ar gyfer Ysgol/Coleg y Flwyddyn yng Ngwobrau Symudedd Cymdeithasol y DU (SOMOs).

www.gcs.ac.uk/cy/Employers

Prosiectau Cyflogadwyedd Cyngor Abertawe

Mae Cyngor Abertawe yn cynnal nifer o brosiectau cyflogadwyedd yn y sir gan gynnwys Llwybrau i Waith a Chymunedau am Waith a Mwy, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain.

Er bod pob prosiect yn targedu carfan benodol iawn o gyfranogwr, mae'r cynnig nodweddiadol o gefnogaeth ar draws y prosiectau yn cynnwys:

- Allgymorth ac ymgysylltu cymunedol
- Gwasanaeth recriwtio i gyflogwyr

Skills and Recruitment

Swansea Council and the Welsh Government are committed to supporting people to build skills and confidence to find and stay in work. It is also equally important to support employers to find the workforce they require for their businesses to flourish.

The Regional Employment and Skills Plan for South West and Mid Wales has been developed to inform Welsh Government's strategic approach to the delivery of employment and skills provision.

www.rlp.org.uk/SharedFiles/Download.aspx?pageid=2&mid=13&fileid=50

This Skills and Recruitment section provides an overview of the broad range skills and recruitment support available to Swansea businesses. These programmes and projects have been designed to support the growth of businesses and unlock the potential of the County's workforce.

Access to Work

UK Government provides grants to disabled people or individuals with a long-term physical or mental health condition to start work, stay in work or move into self-employment.

Access to Work can help pay for support individuals may need because of their disability or long-term health condition, for example:

- specialist equipment and assistive software
- support workers, like a BSL interpreter, a job coach or a travel buddy
- costs of travelling to work, if you cannot use public transport
- adaptations to your vehicle so you can get to work
- physical changes to your workplace

Your workplace can include your home if you work from there some or all of the time.

www.gov.uk/access-to-work

Beyond Bricks & Mortar

Swansea Council's Beyond Bricks & Mortar (BBM) initiative works with local contractors to create work and training placements for local people.

BBM secures employment, apprenticeships, training and skills development opportunities for the unemployed, economically inactive and young people through the inclusion of social benefit clauses in Council contracts. 25,000 'person weeks' of employment, training and on the job experience placements have been created over the last 5 years.

www.swansea.gov.uk/beyondbricksandmortar

Business Wales Recruit & Train

Skills and Employability are priority areas for the Welsh Government because it understands that the better people's skills, the better their chances of getting fair, secure and rewarding employment. The stronger the skills base in Wales, the more chance there is to attract new businesses and grow existing ones to improve overall prosperity.

Business Wales' Recruit & Train service provides support and guidance to identify skills gaps and development for your business and to ensure Wales' workforce is skilled for the future.

www.businesswales.gov.wales/topics-and-guidance/employing-people-and-improving-skills/recruit-and-train

Gower College Swansea

Gower College Swansea offers a range of apprenticeships and professional development qualifications for businesses to upskill staff. The College has access to a range of funding, and can support employers to fill skill gaps, future-proof their workforce and retain talented employees.

The award-winning apprenticeship programmes offer individuals of all ages the opportunity to develop their career, by gaining key workplace experience and hands-on skills, whilst allowing businesses to reduce recruitment costs.

Gower College Swansea is contracted by Welsh Government to deliver the training and assessments, which is fully funded, with businesses paying the apprentice's wages.

In the past year, the College has received the Association of Colleges Beacon Award for Widening Participation, the Social Impact Award at the InsideOut Awards, as well as the Highly Commended and Gold Award for School/College of the Year at the UK Social Mobility Awards.

www.gcs.ac.uk/Employers

Swansea Council Employability Projects

Swansea Council operates a number of employability projects within the County including, but not limited to, Pathways to Work and Communities For Work plus.

Whilst each project targets a very specific cohort of participant, the typical offer of support across the projects includes:

- Community outreach and engagement
- Recruitment service for employers
- Dedicated intensive employment mentoring
- Training and qualifications
- Volunteering placements

- Mentora cyflogaeth dwys penodol
- Hyfforddiant a chymwysterau
- Lleoliadau gwirfoddoli
- Cyfleoedd gwaith am dâl
- Treialon mewn lleoliadau gwaith
- Cymorth a chynghor ynghylch lles

